# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

**Hybrid**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Hydref 2023

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 12)

## 2 Sesiwn dystiolaeth - P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

(Tudalennau 13 - 40)

Simon Gilbert, Pennaeth Cynllunio - Cyngor Caerdydd

## 3 Deisebau newydd

3.1 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

(Tudalennau 41 - 52)

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru

(Tudalennau 53 - 55)

4.2 P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod

(Tudalennau 56 - 59)

4.3 P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd

(Tudalen 60)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

5 **Sesiwn dystiolaeth – P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod**

(Tudalennau 61 – 65)

Darren Joyce, Cyfarwyddwr the Friendly Trust

6 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

7 **Trafod y dystiolaeth – P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol**

8 **Trafod y dystiolaeth – P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod**

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 2

# Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Chwefror 2023
Petitions Committee | 27 February 2023

Cyfeirnod: SR23/5289-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1307

Teitl y ddeiseb: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol

Geiriad y ddeiseb: Mae preswylwyr 'the Mill', ystâd newydd yn Nhreganna, Caerdydd, yn gorfod talu ffi flynyddol o £102 am gynnal a chadw parc sy'n ffinio ar yr ystâd. Rhaid gwneud y taliad hwn ochr yn ochr â thaliadau cynnal a chadw eraill sy'n talu am y priffyrdd a'r mannau gwyrdd heb eu mabwysiadu ac ati. Rhaid i breswylwyr hefyd dalu'r dreth gyngor lawn sy'n ofynnol. Nid yw preswylwyr yn cael dadansoddiad manwl o gostau'r parc, dim ond hysbysiad i ddweud bod yn rhaid iddynt dalu'r ffi.

Ystyriwyd bod 'the Mill' yn enghraifft dda o bolisi Llywodraeth Cymru oherwydd ei statws fel ystâd ddeiliadaeth gymysg sy'n cynnwys tai fforddiadwy ochr yn ochr â phrynu rhydd-ddaliadol – felly, o ystyried yr argyfwng costau byw presennol, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi preswylwyr ar ystadau fel 'the Mill' drwy annog a hwyluso awdurdodau lleol i fabwysiadu'r gwaith cynnal a chadw a dileu'r taliadau cosbol hyn.

# 1. Cefndir

Lle nad yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu ardaloedd cyffredin – er enghraifft, ffyrdd, mannau agored a chyfleusterau chwarae – ar ystadau tai, gellir rhoi trefniadau preifat ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal. Yn gyffredinol, bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle bydd tâl yn cael ei godi ar breswylwyr gan gwmni rheoli, neu eu hasiant, er mwyn talu am gostau cynnal a chadw.

Yn ôl ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020, gall y mannau a'r cyfleusterau hyn gynnwys:

- *ardaloedd agored,*
- *parciau chwarae,*
- *ffyrdd a phalmentydd,*
- *lleoedd parcio ceir,*
- *goleuadau stryd,*
- *gwaith tirlunio,*
- *mentrau amgylcheddol megis lleiniau ymyl ffordd o flodau gwyllt, a*
- *darparu systemau chwistrellu preifat a rennir.*

Yn aml, cyfeirir at y taliadau hyn fel taliadau ystadau. Mae rhydd-ddeiliaid yn debygol o wynebu taliadau uniongyrchol, ac mae'n bosibl y bydd gofyn i lesddeiliaid a thenantiaid dalu drwy eu taliadau gwasanaeth a'u rhent. Mae'r papur briffio hwn yn defnyddio'r term "preswylwyr" i gwmpasu pob grŵp a allai fod yn atebol am daliadau ystadau.

Yn ôl yr ymatebion a ddaeth i law ar gyfer yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2020, gall taliadau ystadau fod rhwng £50 a £500 y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf yn amrywio rhwng £100 a £150. Mae preswylwyr yn parhau i fod yn atebol am y dreth gyngor, yn ogystal ag unrhyw daliadau ystadau.

Mae nifer o bryderon wedi'u codi gan Aelodau o'r Senedd ynghylch taliadau ystadau, a thrwy'r ymgynghoriad y cyfeirir ato uchod. Mae tryloywder yn fater allweddol, gyda thrigolion yn cwyno bod rheolwyr ystadau yn gallu pennu taliadau heb ymgynghori. Mae trigolion hefyd wedi gwneud sylwadau ynghylch y ffaith nad yw datblygwyr yn aml yn darparu gwybodaeth am daliadau ystadau yn ystod y broses o werthu eiddo.

Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad 2020 yn cwestiynu pam fod tâl yn cael ei godi arnynt mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw ar bethau sydd, ar y cyfan, yn gyfleusterau cyhoeddus, o gofio eu bod eisoes yn talu'r dreth gyngor. Roedd ymgynghoriad 2020 yn nodi bod ymatebwyr 'yn gadarn o blaid' rhoi terfyn ar daliadau ystadau ac o blaid rhoi'r dasg o reoli seilwaith cymunedol yn nwylo awdurdodau lleol.

Ar hyn o bryd, mae'r pwerau sydd gan randdeiliaid i herio taliadau ystadau'n gyfyngedig. Mae hyn yn wahanol i sefyllfa lesddeiliaid, sy'n gallu gwneud cais i Dribiwnlys Prisio Lesddaliadau i herio taliadau gwasanaeth.

Ymddengys fod y defnydd o daliadau ystadau yng Nghymru wedi cynyddu dros y degawd diwethaf, gydag ymgynghoriad 2020 yn nodi bod 72 y cant o'r rhai a ymatebodd yn byw ar ystadau a adeiladwyd ar ôl 2010. Bu cynnydd cyfatebol yn y sylw a roddir yn y cyfryngau i daliadau ystadau, a'r effaith y maent yn ei chael ar rydd-ddeiliaid yn arbennig, gan arwain at boblogeiddio'r term 'fleecehold'' ar draws sector tai y DU.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth ei hymgynghoriad ar daliadau ystadau rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2020, a chafwyd dros 600 o ymatebion iddo. Ar 30 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, ddatganiad ysgrifenedig yn ymateb i'w ganfyddiadau.

Cyhoeddodd y Gweinidog newidiadau i'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymrwymodd i archwilio gwahanol ddulliau o reoli ystadau.

Yn ei ddatganiad, tynnodd y Gweinidog sylw at yr effaith bosibl ar awdurdodau lleol pe baen nhw'n cael eu gwneud yn gyfrifol am y mannau neu'r cyfleusterau cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn y taliadau ystadau:

> Rwy'n cydnabod nad yw'n fater syml o feddwl y gallai awdurdodau lleol ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn am byth heb yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer gwasanaeth o'r fath. Mae gofyn inni roi sylw priodol i'r cwestiwn hwnnw, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wnawn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac effeithiau andwyol ac annisgwyl.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys diwygio taliadau ystadau yn ei Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2021, gan nodi y byddai'n:

> *Sicrhau bod taliadau ystad am fannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg.*

Yn dilyn cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mai 2022, gwnaeth y Prif Weinidog ailddatgan y ffaith na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi gwarant y byddai awdurdodau lleol yn talu costau cynnal a chadw mewn perthynas ag ystadau tai newydd. Dywedodd y Prif Weinidog:

> Pe bai datblygwr yn credu, ni waeth pa mor wael yw'r gwaith, ni waeth pa mor wael yw safon y cyfleusterau cymunedol, byddai sicrwydd y byddai'r pwrs cyhoeddus yn talu am hynny ac yn ei gywiro, nid oes cymhelliad o gwbl iddyn nhw wneud y gwaith yn y ffordd yr ydym eisiau iddo gael ei wneud.

Gwnaeth y Prif Weinidog hefyd gadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar ddiogelwch adeiladau yn ystod tymor y Senedd hon, gan gynnwys cynllun cofrestru a thrwyddedu newydd. Bydd y cynllun hwn yn cwmpasu cwmnïau sy'n rheoli eiddo preswyl. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n "helpu i ddileu rhai o'r achosion o gamddefnyddio'r system" sy'n ymwneud â thaliadau ystadau.

Yn ogystal, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn aros i Lywodraeth y DU gyflwyno rhaglen ddiwygio ar gyfer y gyfundrefn lesddaliadau (yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith) a fyddai'n rhoi mwy o bŵer i rydd-ddeiliaid herio taliadau a rheolaeth ystadau. Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r diwygiadau eto wedi'u rhoi ar waith. Ar 30 Ionawr 2023, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Michael Gove AS, mai ei nod oedd i Fil lesddaliadau gael ei gynnwys yn Araith y Brenin, a ddisgwylir yn hydref 2023.

Ymatebodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, i'r ddeiseb ar 1 Tachwedd 2022. Yn ei llythyr, gwnaeth y Gweinidog ailddatgan disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth i wella hawliau rhydd-ddeiliaid. Nododd y Gweinidog yn y llythyr fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i fynd i'r afael â seilwaith cymunedol ar ystadau newydd:

> Ar gyfer ystadau newydd, byddwn yn archwilio ymarferoldeb defnyddio deddfwriaeth i ddod â'r gwahanol gyfundrefnau i dalu am gynnal a

chadw seilwaith cymunedol ynghyd mewn un dull gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys ystyried rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i fabwysiadu seilwaith cymunedol yn gyfnewid am daliad priodol gan y datblygwr.

Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y byddai'r cam o fabwysiadu seilwaith cymunedol yn ôl-weithredol yn parhau i fod yn ddewis i gynghorau.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar 14 Mawrth 2018, cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod, sef cynnig a gyflwynwyd gan Hefin David AS i greu Bil â'r nod o reoleiddio cwmnïau sy'n rheoli ystadau. Byddai'r Bil arfaethedig hefyd yn cryfhau gallu rhydd-ddeiliaid i herio rheolwyr ystadau.

Wrth ymateb i'r ddadl, ymrwymodd Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd, i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio'r mater hwn. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r grŵp mewn adroddiad ar 17 Gorffennaf 2019.

Ar 1 Tachwedd 2020, cyflwynwyd deiseb a oedd yn galw am ragor o bwerau i rydd-ddeiliaid yng Nghymru herio cwmnïau sy'n rheoli ystadau. Gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd ymateb i'r ddeiseb hon ar 5 Hydref 2021, a chafodd y ddeiseb ei chau gan y Pwyllgor gan fod y deisebydd yn fodlon ag ymateb y Gweinidog. Gellir dod o hyd i'r briff ymchwil a baratowyd ar gyfer y ddeiseb hon yma.

Yn ogystal, mae taliadau ystadau yn fater sydd wedi cael ei godi sawl gwaith yn y Cyfarfod Llawn. Gwnaeth Hefin David AS godi'r mater ar 15 Mehefin 2021. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud ei bod ystyried pob opsiwn wrth geisio mynd i'r afael â'r mater.

Ar 24 Mai 2022, gofynnodd Rhys ab Owen AS gwestiwn ar y broses o reoli ystadau, yn dilyn cwynion gan breswylwyr ar ystâd 'the Mill' yn Nhreganna, Caerdydd, (sef yr ystâd y cyfeirir ati yn y ddeiseb hon).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1307 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol, Gohebiaeth – CLlLC at y Pwyllgor, 12.10.23**

Sefydlwyd Tasglu Ffyrdd sydd heb eu Mabwysiadu yn 2018 er mwyn edrych i'r sefyllfa o ran y ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru, ac wrth wneud hynny, meintoli graddfa'r ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu a'r problemau maent yn eu hachosi. Mae gwaith pellach wedi'i gyflawni o ran amcangyfrif costau uwchraddio isadeiledd ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu i safonau y gellir eu mabwysiadu, a hefyd beth all yr Awdurdodau Priffyrdd Lleol wneud i osgoi creu ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu nawr ac yn y dyfodol. Mae nifer o Gynlluniau Peilot wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu cynnal er mwyn profi'r ddealltwriaeth ar gostau a phrosesau o ran 'uwchraddio' ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu.

Yn fuan, daeth yn glir fod ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yn disgyn i 5 math penodol, ac un o'r rhain oedd ffyrdd ystâd tai heb eu mabwysiadu. Dyma'r elfen o waith ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu a all fod yn berthnasol ac o ddiddordeb i'r pwyllgor. Felly, mae'r wybodaeth a gyflwynir yma yn delio gyda'r agwedd hon o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu, ac nid y pedwar categori arall y daeth i'n sylw.

Felly ar ffyrdd ystâd tai yn benodol, cafodd y Tasglu hyd i broblemau yn ymwneud â

- Datblygiadau yn symud ymlaen heb gwblhau'r cytundebau angenrheidiol rhwng yr Awdurdodau Priffyrdd a Datblygwyr
- Datblygwyr ac Adeiladwyr yn cael eu diddymu a diffyg arian bond wedi'i bennu i gwblhau'r ffyrdd
- Datblygiadau yn digwydd dros ddegawdau mewn rhai enghreifftiau
- Eiddo yn cael eu prynu heb i'r prynwyr tai fod yn ymwybodol o rwymedigaethau Priffyrdd parhaus posibl
- Hefyd, roedd yn ymddangos bod diffyg cysondeb o'r safonau disgwyliedig ar draws y 22 awdurdod lleol, ond hefyd gyda dulliau'r Datblygwyr.

  Roedd rhai materion 'cwmni rheoli' proffil uchel yr oedd y Tasglu yn ymwybodol ohonynt ar y pryd, ond canolbwynt y gwaith oedd edrych ar yr hyn a allai gael ei wneud i atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi yn y dyfodol ac edrych ar uwchraddio posibl.

Mae'r Ddeddf Priffyrdd yn grymuso Awdurdodau Priffyrdd Lleol i gymryd rheolaeth o isadeiledd ffyrdd ystâd drwy fynnu bod cytundebau priffyrdd yn cael eu cyflawni cyn dechrau ar waith datblygu. Lluniodd y Tasglu Ganllaw Arferion Da i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol i nodi sut all adrannau perthnasol o'r Ddeddf Priffyrdd a deddfwriaeth gysylltiedig, gael eu defnyddio i sicrhau fod cytundebau cadarn yn eu lle mewn modd amserol. Mae gan yr Awdurdodau Priffyrdd Lleol y modd i reoli hyn. Yn ddelfrydol, dylai holl ddatblygiadau tai newydd gael priffyrdd mabwysiedig, ond roedd


cydnabyddiaeth y byddai rhai datblygiadau megis fflatiau uchel a ffyrdd pengaead gyda giatiau, yn cynnwys lleiniau mynediad na fyddai yn y parth cyhoeddus, ac felly'n rhesymol yn cael eu rheoli a'u cynnal a chadw yn breifat ar y cyd â chostau adeiladu cymunedol.

Gall fod yn bwysig cydnabod cyn belled a bod yr awdur yn ymwybodol, nid yw mannau agored cyffredinol mewn datblygiadau yn mwynhau'r un sail ddeddfwriaethol sydd mewn lle ar gyfer isadeiledd priffyrdd. Hefyd, mae'r priffyrdd yn bwysig o ran sut y darperir cyfleustodau a gwasanaethau i ddatblygiadau newydd, ac mae rhyngweithiad agos rhwng y Ddeddf Priffyrdd a Darparwyr Cyfleustodau.

Agwedd arall o waith y Tasglu oedd rheoli cydosodiad cyfres o Safonau Cyffredin i'w ddefnyddio gan Ddatblygwyr ac Awdurdodau Lleol. Cafodd hyn ei gyflawni gan gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol a Chwmnïau Datblygu yn cydweithio i gytuno ar gyfres o safonau a oedd yn rhesymol ac y gellid eu cymhwyso ar draws Cymru, gan wella dealltwriaeth a disgwyliadau holl bartïon gan arwain at gwblhau cytundebau priffyrdd yn haws.

I gloi, mae gwaith y Tasglu Ffyrdd sydd heb eu Mabwysiadu yn y maes wedi canolbwyntio ar sicrhau fod yr offer mewn lle ar gyfer gwell rheolaeth a darpariaeth o ffyrdd ystâd i safonau mabwysiedig sy'n darparu amgylcheddau diogel da a rhesymol, gan osgoi ymgysylltu a defnyddio cwmnïau rheoli. Mae rhagdybiaeth wedi bod erioed ei fod er budd y cyhoedd i isadeiledd priffyrdd newydd gael eu cynnal a'u cadw'n gyhoeddus fel priffyrdd mabwysiedig. Yn amlwg, mae pwysau ariannol bob amser o ran hyfywedd datblygiadau a sut mae safonau priffyrdd yn cael effaith, a chost net i'r pwrs cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod o ran cyflawni rhwymedigaethau cynnal a chadw pellach. Fodd bynnag, roedd gwaith y Tasglu bob amser â'r nod i 'alluogi' ac i fod yn gadarnhaol, ac yng ngoleuni hyn mae'r sylwadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# FFYRDD SYDD HEB EU MABWYSIADU YNG NGHYMRU
# ADRODDIAD TERFYNOL I WEINIDOG YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH

Medi 2020



978-1-80038-940-3

## Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd y Tasglu Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu ar gais y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i edrych ar y problemau yng Nghymru ac wrth wneud hynny nodi faint o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu sydd yna a beth y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa. Yn dilyn ymchwiliad cychwynnol ac ymarfer ymgynghori cynhwysfawr yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, cyflwynwyd adroddiad rhagarweiniol i'r Gweinidog yng Ngwanwyn 2019. Mae'r adroddiad cyfredol hwn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol ac yn mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad cychwynnol.

Mae'r Tasglu wedi bod yn ymwybodol iawn o'r adborth defnyddiol o ymarferiad ymgynghori Tachwedd 2018 ac wedi ystyried yr holl faterion a godwyd. Mae'r rhain wedi bod yn amrywiol ac wedi cynnwys materion sy'n ymwneud â phob math o ffyrdd heb eu mabwysiadu, a'r anawsterau sy'n codi o ganlyniad i ddim perchnogaeth glir na chyrff cyfrifol am ffyrdd penodol heb eu mabwysiadu. Roedd aelodaeth y Tasglu yn cynnwys ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol medrus sydd wedi gallu cydnabod ac argymell rhai gweithredoedd sy'n arwain at well dealltwriaeth o natur a cwantwm y materion ledled Cymru. Yn bwysig, gwneir argymhellion a fydd yn dechrau mynd i'r afael ag anferthwch y broblem ar sail blaenoriaeth, ond hefyd drwy'r Canllaw Arferion Da a'r Safonau Cyffredin, bydd yn lleihau'n sylweddol y siawns y bydd unrhyw 'ffordd heb ei mabwysiadu' arall yn cael ei chreu.

Mae'r holl gamau gweithredu o argymhellion yr adroddiad cychwynnol ar Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu yng Ngwanwyn 2019 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- Mae gwaith wedi mynd rhagddo i sefydlu CRONFA DDATA i ddarparu cofnod cynhwysfawr o'r holl ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru.
- Bydd y gronfa ddata'n cael ei chynnal fel rhan o reolaeth y Rhestr Gwaith Stryd Genedlaethol gyda chymorth Awdurdodau Lleol.
- Defnyddiwyd y gronfa ddata i ddarparu cwantwm o'r ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ledled Cymru ac wrth wneud hynny, mae wedi galluogi darparu amcangyfrifon amlinellol ar gyfer gwella ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu i safonau y gellir eu mabwysiadu yn rhesymol.
- Nodwyd cyllidebau ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gronfa ddata honno
- Mae Awdurdodau Lleol a'r ffederasiynau adeiladu tai wedi cofrestru ar gyfer y CANLLAW ARFERION DA.
- Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu set o SAFONAU CYFFREDIN dylunio ac adeiladu priffyrdd i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol a datblygwyr tai ar gyfer ffyrdd y gellir eu mabwysiadu.

Mae'r argymhellion pellach eraill fel a ganlyn:

**ARGYMHELLIAD 1 –**
bod Awdurdodau Lleol i ddechrau yn nodi'r materion blaenoriaeth o ran ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yn eu hardaloedd Cyngor, a bod amcangyfrifon cost yn cael eu darparu ar gyfer gwella i safonau y gellir eu mabwysiadu. Byddai angen cyfiawnhau cynigion o'r fath o ran angen yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

**ARGYMHELLIAD 2 –**
y dylid ystyried i ryw fath o adnodd canolog fod ar gael i gynorthwyo gydag ariannu'r gwaith angenrheidiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau ffyrdd lleol sydd heb eu mabwysiadu.

ARGYMHELLIAD 3 –
monitro'r defnydd o'r Canllaw Arferion Da, a bod deialog bellach gydag Awdurdodau Lleol yn digwydd yn ddiweddarach yn 2020 i werthuso buddion defnyddio'r Canllaw Arferion Da.

**ARGYMHELLIAD 4 –**
cyhoeddi cyfres o Safonau Cyffredin i'w defnyddio gan Awdurdodau Priffyrdd Lleol a Datblygwyr Tai.

**ARGYMHELLIAD 5 –**
bod y gyfres o ddogfennau Safonau Cyffredin yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu gofynion newidiol o ganlyniad i fentrau eraill sy'n dod i'r amlwg, a bod cyllid blynyddol yn cael ei ddarparu i alluogi hyn.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cefndir | Tudalen 4 |
| Cyflwyniad | Tudalen 5 |
| Canfyddiadau a Chanlyniadau | Tudalen 7 |
| Canllaw Arferion Da | Tudalen 10 |
| Safonau cyffredin | Tudalen 12 |
| Crynodeb | Tudalen 13 |
| Argymhellion | Tudalen 14 |
| Atodiadau | Tudalen 16 |



## Cefndir

**Yn dilyn Trafodaeth Aelod Cynulliad Cymru yn y Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror 2018 ynghylch y materion yn ymwneud â ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu, ymrwymodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i sefydlu Tasglu i ymchwilio i'r materion ac i gyflwyno adroddiad gyda chanfyddiadau ac argymhellion cychwynnol yng Ngwanwyn 2019.**

Yn unol â hynny, sefydlwyd y Tasglu a chynhaliodd adolygiad o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ac adroddodd yn ôl i'r Gweinidog ym mis Ebrill 2019. Roedd canlyniadau'r ymchwiliadau cychwynnol fel a ganlyn:

- Ychydig o wybodaeth ddibynadwy, wedi'i rheoli sydd ar gael ar hyn o bryd ac felly mae'n anodd mesur maint y ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu a chost adferiad.
- Mae angen buddsoddi i ddatblygu cronfa ddata i ddarparu gwybodaeth gyson a chadarn ar ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu fyddai'n galluogi i ddarlun mwy cywir gael ei greu a deall cost adferiad.
- Mae ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yn disgyn yn fras i chwe chategori.
- Mae ffyrdd heb eu mabwysiadu i ystadau tai y math o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu y cyfeiriwyd atynt fwyaf yn rhifog gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad (sefyllfaoedd hanesyddol ac adeiladau newydd).
- Mae nifer o gamau wedi eu nodi a fyddai'n gallu atal y broblem rhag mynd yn waeth dros amser. Yn seiliedig ar y rhain, mae siart llif wedi ei datblygu sy'n nodi'r sail ar gyfer canllaw arferion da yn y dyfodol ar gyfer eu defnyddio gan Awdurdodau Priffordd Lleol a datblygwyr tai. Drwy ei ddefnyddio'n gyson, gall hyn helpu i leihau'r ffyrdd newydd i ystadau tai rhag cael eu mabwysiadu.  Byddai hyn yn galluogi i ymdrechion ganolbwyntio ar ddelio gyda'r ôl-groniad o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu, a sut i leihau hyn mewn ffordd a flaenoriaethir dros amser, yn ddarostyngedig i argaeledd adnoddau.
- Nodwyd yr angen am ddull safonau cyffredin i fynd gyda'r canllaw arferion da.



Tudalen y pecyn 24

## Cyflwyniad

Gwnaed yr argymhellion canlynol, a'u cymeradwyo wedi hynny gan y Gweinidog:

- Bod gwaith yn datblygu i sefydlu CRONFA DDATA i ddarparu cofnod cynhwysfawr o'r holl ffyrdd heb eu mabwysiadu yng Nghymru.
- Bod y gronfa ddata yn cael ei defnyddio i ddarparu amcangyfrif cost ar gyfer gwella ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu i safonau y gellir eu mabwysiadu'n rhesymol.
- Bod y gronfa ddata yn cael ei rheoli a'i chynnal gyda chymorth awdurdodau lleol
- Bod cyllideb yn cael ei sefydlu ar gyfer y gronfa ddata.
- Bod Awdurdodau Lleol ac adeiladwyr tai yn datblygu CANLLAW ARFER DA i leihau'r siawns yn sylweddol o unrhyw ffyrdd newydd i ystadau tai yn dod yn ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu.
- Bod Awdurdodau Lleol a'r ffederasiynau adeiladu tai yn cofrestru ar gyfer y canllaw arferion da a awgrymwyd.
- Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu set o SAFONAU CYFFREDIN dylunio ac adeiladu priffyrdd i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol a datblygwyr tai ar gyfer ffyrdd y gellir eu mabwysiadu.



Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argymhellion uchod a darparu datganiad sefyllfa yn benodol ar y GRONFA DDATA, Y CANLLAW ARFERION DA a'r SAFONAU CYFFREDIN.



Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion cymeradwy o'r adroddiad cychwynnol fel y'u rhestrir uchod fel a ganlyn:

## CRONFA DDATA

**Bod gwaith yn datblygu i sefydlu CRONFA DDATA i ddarparu cofnod cynhwysfawr o'r holl ffyrdd heb eu mabwysiadu yng Nghymru.**

Mewn ymateb i hyn, cyflogwyd 'Geoplace' i gynnal ymarfer mapio data o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ym mhob ardal Sirol yng Nghymru. Mae Geoplace eisoes yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Priffyrdd Lleol Cymru a'r Cwmnïau Cyfleustodau Cyhoeddus ac yn cynhyrchu ac yn rheoli'r Rhestr Gwaith Stryd Genedlaethol. At hynny, mae Geoplace yn gwmni sy'n eiddo i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans, sy'n ei gwneud yn ddelfrydol i ymgymryd â'r rôl hon.

Ar hyn o bryd nid oes gan Awdurdodau Lleol ddata cyson na chywir ar ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu. Mae'r dadansoddiad bwrdd gwaith a gynhaliwyd wedi cynhyrchu mapiau data drafft, i ddechrau ar gyfer nifer gyfyngedig o Gynghorau sy'n nodi ffyrdd heb eu mabwysiadu ar haen ddata yn seiliedig ar arolwg ordnans. Mae'r chwe Chyngor dan sylw (gweler Atodiad 1) wedi bod yn gwirio'r data i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhyrchir yn ddigon cadarn ac yn gynrychiolaeth dda o sefyllfa'r ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ym mhob un o'r ardaloedd Cyngor hyn.

Mae arwyddion cynnar yn addawol gyda chytundeb bod cydberthynas dda rhwng y data sy'n dod i'r amlwg a'r sefyllfa hysbys ar lawr gwlad. Mae hyn yn rhoi hyder ynghylch cyfanrwydd Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu yng Nghymru.

Hefyd, unwaith y bydd yr holl setiau data wedi'u cwblhau, roedd angen sicrhau bod yr holl wybodaeth mapio ffyrdd heb eu mabwysiadu ar gael mewn un lleoliad canolog er mwyn galluogi mynediad cyhoeddus i'r data.

Fodd bynnag, mae'r offeryn 'Find My Street' ar y we eisoes yn bodoli ac mae ar gael am ddim i bawb; mae hyn yn dangos yr holl briffyrdd a fabwysiadwyd, ac felly gellir ystyried unrhyw ffordd na ddangosir fel un a fabwysiadwyd yn un 'heb ei mabwysiadu'. Mae 'Find My Street' eisoes yn darparu cafeat i ddweud efallai nad yw'r data 100% yn gywir ac y dylid gwirio statws ffyrdd wedi eu mabwysiadu yn lleol drwy'r data ffyrdd mabwysiedig statudol a gedwir gan bob Awdurdod Lleol unigol. Mae 'Find My Street' yn cael ei gynnal a'i ddiweddaru gan Geoplace ochr yn ochr â gwaith y Rhestr Gwaith Stryd a'i seilio ar yr un data.


Gweler manylion yma ar sut wnaeth Geoplace gynnal yr ymarfer mapio

**Bod y gronfa ddata yn cael ei defnyddio i ddarparu amcangyfrif cost ar gyfer gwella ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu i safonau y gellir eu mabwysiadu'n rhesymol.**

Cyn hyn, yr unig wybodaeth yr ymddengys i fod ar gael yw, yn gynnar yn y saithdegau, y nodwyd 4000 o filltiroedd (6437 cilometr) fel cyfanswm hyd y ffyrdd heb eu mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr

Yn seiliedig ar y data sy'n dod i'r amlwg a gynhyrchwyd gan Geoplace, mae'n ymddangos bod tua 25,000 cilometr o ffyrdd heb eu mabwysiadu yng Nghymru yn unig. Mae ffigur o'r fath yn cynnwys pob un o'r 6 chategori o ffyrdd heb eu mabwysiadu a nodwyd ac yr adroddwyd arnynt i ddechrau (gweler Atodiad 2). Fodd bynnag, o ran ffyrdd heb eu mabwysiadu sy'n gwasanaethu 5 eiddo neu fwy (fel sy'n digwydd yn nodweddiadol ar gyfer ffordd heb ei mabwysiadu i ystâd dai), yna mae'r hyd oddeutu 2,600 cilometr ar gyfer Cymru gyfan.


Hyd yr holl ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru yw 25,374 cilometr wedi'u torri i lawr fel a ganlyn




Hyd ffyrdd heb eu mabwysiadu sy'n gwasanaethu 2 eiddo neu fwy yw 5,557 cilometr




Hyd ffyrdd heb eu mabwysiadu sy'n gwasanaethu 5 eiddo neu fwy yw 2,617 cilometr




Trwy'r adborth i'r ymgynghoriad cychwynnol ar ffyrdd heb eu mabwysiadu a sgyrsiau eraill ag Awdurdodau Lleol, a thrwy drafod gydag ymarferwyr sy'n gwasanaethu ar y Tasglu, byddai cost nodweddiadol gytûn ar gyfer llunio ffordd i safon y gellir ei mabwysiadu oddeutu £600 y metr llinellol.

Yn amlwg, ffigur cyfartalog nodweddiadol yw hwn i raddau helaeth ac yn amlwg byddai rhai sefyllfaoedd yn gofyn am fwy neu lai fesul metr llinellol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Mae'r isadeiledd ffyrdd heb ei fabwysiadu yn helaeth, ac mae'n annirnadwy ystyried gwelliannau i bob adran unigol. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y gost o £600 / metr llinellol, yna bydd buddsoddiad o £10 miliwn yn gwella oddeutu 16 cilomedr o ffordd.

Er bod ffyrdd heb eu mabwysiadu i ystadau tai yn drech yn rhifiadol, mae pryderon hefyd ynghylch mathau eraill o ffyrdd heb eu mabwysiadu mewn rhai ardaloedd. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys lonydd gwledig sy'n gwasanaethu eiddo anghysbell, rhai lonydd cefn, a hen barciau cabanau gwyliau bellach yn cael eu defnyddio fel preswylfeydd parhaol ac ati.

Nid oes gan Awdurdodau Lleol unrhyw gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â ffyrdd heb eu mabwysiadu. Fodd bynnag, mae yna bwerau dewisol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 sy'n galluogi Awdurdodau Priffyrdd os ydyn nhw'n dewis trwsio a gwella priffyrdd i safon y gellid eu mabwysiadu. Yn dilyn blynyddoedd o setliadau cyllido anodd, nid oes gan Gynghorau unrhyw gyllidebau a dim cynlluniau i fuddsoddi mewn datrys materion ffyrdd heb eu mabwysiadu a galluogi gwaith gwella; gall rhyw fath o gyllid canolog ganiatáu i Awdurdodau Priffyrdd ymgymryd â gwella'r problemau gwaethaf ar y ffyrdd heb eu mabwysiadu yn eu hardaloedd Awdurdod Lleol. Gellid cynyddu gwerth unrhyw fuddsoddiad canolog pe bai buddiolwyr posib (e.e. preswylwyr a fyddai'n elwa o welliannau i'w strydoedd heb eu mabwysiadu) yn cyfrannu hefyd.

Mae'r egwyddor hon eisoes wedi'i hymgorffori yn y mecanweithiau Gwaith Stryd Preifat sy'n bodoli fel rhan o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Yn unol â hynny, argymhelliad sy'n dod i'r amlwg yw bod Llywodraeth Cymru mewn egwyddor yn neilltuo cyllid i fynd i'r afael â'r ffyrdd gwaethaf heb eu mabwysiadu ledled Cymru, a bod Awdurdodau Priffyrdd yn darparu manylion o ran sut y byddent yn defnyddio unrhyw gyllid ac yn cyfleu buddion buddsoddiad o'r fath.

Yn dibynnu ar yr ymatebion, gellid ystyried sut y byddai'n well dosbarthu cyllid; gallai hyn fod ar sail cyllid fformiwla sy'n debyg mewn egwyddor i'r ffordd y mae cyllid refeniw yn cael ei ddosbarthu i Awdurdodau Lleol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd a fabwysiadwyd.

### Bod y gronfa ddata yn cael ei rheoli a'i chynnal gyda chymorth awdurdodau lleol.

Trwy drafodaethau gyda Gwarcheidwaid Llwybrau Cymru (staff Priffyrdd yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am fewnbynnu a chynnal y Rhestr Strydoedd Genedlaethol ar y cyd â'r sefydliadau Cyfleustodau Cyhoeddus), mae'n ymddangos unwaith y bydd y gronfa ddata o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu wedi'i sefydlu, y gellir cynnal a diweddaru cofnodion trwy'r prosesau Rhestr Gwaith Stryd; gan obeithio na fydd unrhyw ffyrdd newydd heb eu mabwysiadu hysbys yn cael eu creu (na'u nodi), a bydd y rhai sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai yn destun cytundebau cyfreithiol ac yn hysbys i'r Awdurdod Priffyrdd unigol a'r cwmnïau Cyfleustodau a fydd yn gwasanaethu datblygiadau o'r fath.

Mae'r teclyn 'Find my Street' yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig fel rhan o'r broses hon.

### Bod cyllideb yn cael ei sefydlu ar gyfer y gronfa ddata.

Roedd angen cyllid o lai na £5,000 i sefydlu'r 22 cronfa ddata o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ledled Cymru. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarpariaeth ariannol ar gyfer hyn.

**Bod Awdurdodau Lleol ac adeiladwyr tai yn datblygu CANLLAW ARFERION DA i leihau'r siawns yn sylweddol o unrhyw ffyrdd newydd i ystadau tai yn dod yn ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu.**

Datblygwyd Canllaw Arferion Da (CAD) gan y Tasglu ynghyd â mewnbwn cyfreithiol arbenigol gan Gyfreithwyr Geldards. (Mae'r GPG yn ymddangos yn Atodiad 3).

Datblygwyd Canllaw Arferion Da (CAD) gan y Tasglu ynghyd â mewnbwn cyfreithiol arbenigol gan Gyfreithwyr Geldards. (Mae'r GPG yn ymddangos yn Atodiad 3). Mae'r GPG wedi'i ddosbarthu'n eang i Awdurdodau Lleol trwy gysylltiadau swyddogion Priffyrdd (Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru), cysylltiadau swyddogion Cynllunio (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) a Grŵp Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd CLlLC. Hefyd, mae Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr a gynrychiolir ar y Tasglu wedi lledaenu'r GPG i'w haelodau.

**Bod Awdurdodau Lleol a'r ffederasiynau adeiladu tai yn cofrestru ar gyfer y canllaw arferion da a awgrymwyd.**

Mae'r GPG wedi'i anelu'n bennaf at swyddogion Priffyrdd Awdurdod Lleol sydd â phwerau o dan Ddeddf Priffyrdd 1950 i gyfarwyddo cwblhau cytundebau ar gyfer mabwysiadu priffyrdd yn gynnar.

Bydd datblygwyr tai yn ymwybodol o bwerau o'r fath a'u cymhwysiad cyson trwy'r GPG, a byddant mewn sefyllfa well i gwblhau cytundebau o'r fath yn gyflym yn gynnar yn y broses gan osgoi unrhyw gymhlethdodau neu anawsterau yn nes ymlaen.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 17 allan o 22 o Awdurdodau Priffyrdd wedi cadarnhau bod eu prosesau wedi'u halinio â'r GPG.



**Sefydlu gweithgor i ddatblygu set o SAFONAU CYFFREDIN dylunio ac adeiladu priffyrdd i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol a datblygwyr tai ar gyfer ffyrdd y gellir eu mabwysiadu.**

Mae Grŵp Adolygu Safonau Cyffredin wedi'i sefydlu yn unol â'r argymhelliad hwn. Arweinir y Grŵp Adolygu gan Gadeirydd Fforwm Rheoli Datblygu Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Peirianwyr a Chynllunwyr Priffyrdd Awdurdodau Lleol, ynghyd ag aelodau Ffederasiwn Adeiladu Tai a chynrychiolwyr datblygwyr tai ar raddfa fawr a bach.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf (RhCT) set gynhwysfawr o ddogfennau a gwblhawyd yn ddiweddar sy'n ddelfrydol fel sail i weithio arnynt i gyflawni set o Safonau Cyffredin ar gyfer alinio ac adeiladu priffyrdd. Mae'r Grŵp Adolygu yn adolygu dogfennaeth RhCT a lle bo angen, yn cynnig diwygiadau a newidiadau a fyddai'n gwneud hyn yn addas i Gymru gyfan.

Ar ôl ei chwblhau, bydd y ddogfennaeth Safonau Cyffredin yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a bydd wedi ystyried yr holl faterion eraill a fydd yn effeithio ar ddatblygiad cyfredol gan gynnwys dyluniad draenio cynaliadwy (SUDS), mesurau Teithio Llesol, gofynion Creu Lleoedd ac ati.

Wrth i'r materion eraill hyn esblygu, bydd felly angen monitro ac adolygu'r ddogfennaeth Safonau Cyffredin yn flynyddol i ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Rhagwelir mai Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i gynnal y gwaith monitro ac adolygu gofynnol. Byddai angen cyllid cymedrol i hwyluso hyn.



## Crynodeb

Mae'r holl gamau gweithredu o argymhellion yr adroddiad cychwynnol ar Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu yng Ngwanwyn 2019 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus fel y nodwyd yn flaenorol yn adran 3 yr adroddiad hwn ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- Mae gwaith wedi mynd rhagddo wrth sefydlu CRONFA DDATA
- Bydd y gronfa ddata yn cael ei defnyddio i ddarparu amcangyfrif cost ar gyfer gwella ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu i safonau y gellir eu mabwysiadu'n rhesymol
- Bydd y gronfa ddata yn cael ei rheoli a'i chynnal gyda chymorth Awdurdodau Lleol
- Nodwyd cyllidebau ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gronfa ddata honno.
- Mae Awdurdodau Lleol a'r ffederasiynau adeiladu tai wedi cofrestru ar gyfer y CANLLAW ARFERION DA
- Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu set o SAFONAU CYFFREDIN dylunio ac adeiladu priffyrdd i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol a datblygwyr tai ar gyfer ffyrdd y gellir eu mabwysiadu



**Mae wedi dod i'r amlwg bod cost nodweddiadol resymol ar gyfer 'trwsio' ffyrdd i safon y gellir ei mabwysiadu yw oddeutu £600 y metr llinellol. Manylir ar allbynnau'r gronfa ddata uchod ac fe'u crynhoir yn Nhabl 1 isod:**

| Categori | Hyd Llinellol (km) | Cost (£) fesul metr llinellol | Cost (£) billiwn |
|---|---|---|---|
| Pob Ffordd heb ei mabwysiadu (URs) | 25,000 | 600 | 15 |
| URs yn gwasanaethu 2 neu fwy o eiddo | 5,600 | 600 | 3.36 |
| URs yn gwasanaethu 5 neu fwy o eiddo | 2,600 | 600 | 1.56 |

## MYND I'R AFAEL Â SEFYLLFAOEDD BLAENORIAETH

Fel y soniwyd yn gynharach, er bod ffyrdd heb eu mabwysiadu i ystadau tai yn ymddangos fel testun y pryder mwyaf i'r mwyafrif o awdurdodau lleol, mae mathau eraill o ffyrdd heb eu mabwysiadu a allai fod yn fwy o broblem mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill; mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys lôn wledig sy'n gwasanaethu eiddo anghysbell ynysig, lonydd cefn heb eu mabwysiadu, hen ddatblygiadau cabannau gwyliau sydd bellach yn cael eu defnyddio fel preswylfeydd parhaol ac ati. O hyn, mae'r Tasglu yn gwneud argymhellion pellach fel a ganlyn:

ARGYMHELLIAD 1 – bod Awdurdodau Lleol i ddechrau yn nodi'r materion blaenoriaeth o ran ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yn eu hardaloedd Cyngor, a bod amcangyfrifon cost yn cael eu darparu ar gyfer gwella i safonau y gellir eu mabwysiadu. Byddai angen cyfiawnhau cynigion o'r fath o ran angen yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

ARGYMHELLIAD 2 - y dylid ystyried i ryw fath o adnodd canolog fod ar gael i gynorthwyo gydag ariannu'r gwaith angenrheidiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau ffyrdd lleol sydd heb eu mabwysiadu.

## CANLLAW ARFERION DA

Mae'n galonogol nodi defnydd eang o'r Canllaw Arferion Da a faint sydd wedi ei fabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddeall yn iawn pa mor effeithiol y bu ei ddefnydd a pha welliannau mesuradwy a wireddwyd. Mae angen trafodaeth ddilynol gydag Awdurdodau Lleol yn ystod rhan olaf 2020 i asesu lefel barhaus y defnydd ac i fesur unrhyw welliannau; mae datblygiadau tai a mabwysiadu ffyrdd cysylltiedig yn cymryd amser ac mae ffactorau eraill yn effeithio ar linellau amser hefyd fel unrhyw hinsawdd economaidd cyfredol, felly bydd yn anodd cael data cadarn yma. Serch hynny, trwy ddeialog gydag Awdurdodau Lleol, y gobaith yw y gellir darganfod pa mor effeithiol yw'r Canllaw Arferion Da.

ARGYMHELLIAD 3 – monitro'r defnydd o'r Canllaw Arfer Da, a bod deialog bellach gydag Awdurdodau Lleol yn digwydd yn ddiweddarach yn 2020 i werthuso buddion defnyddio'r Canllaw Arfer Da.

**SAFONAU CYFFREDIN**

Mae'r gyfres o ddogfennau Safonau Cyffredin bron yn barod, a chynigir dosbarthu'r rhain yn eang i'r holl Awdurdodau Lleol ac adeiladwyr tai (trwy'r ffederasiynau adeiladu tai). Mae positifrwydd cynnar yma gyda'r holl bartïon yn cydnabod y gwelliannau posibl i brosesau a pherthnasoedd y bydd dull 'safonau cyffredin' yn eu cynnig i fabwysiadu ffyrdd ystadau tai newydd. Er y bydd y dogfennau Safonau Cyffredin yn adlewyrchu'r ffordd orau i integreiddio ystyriaethau mawr eraill i fanylion dylunio priffyrdd ac adeiladu cyfredol, bydd angen adolygu a diwygio 'safonau cyffredin' yn rheolaidd wrth i ffactorau eraill newid; mae ffactorau eraill o'r fath yn cynnwys gofynion SUDS newydd, newid gofynion Teithio Llesol, Parcio ar Balmentydd ac ati.

**ARGYMHELLIAD 4** – cyhoeddi cyfres o Safonau Cyffredin i'w defnyddio gan Awdurdodau Priffyrdd Lleol a Datblygwyr Tai.

**ARGYMHELLIAD 5** – bod y gyfres o ddogfennau Safonau Cyffredin yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu gofynion newidiol o ganlyniad i fentrau eraill sy'n dod i'r amlwg, a bod cyllid blynyddol yn cael ei ddarparu i alluogi hyn.



## ATODIAD 1 - Rhestr o Gynghorau sy'n gwirio (a'r rhesymeg dros eu dewis)

Gofynnwyd i'r Awdurdodau Lleol canlynol gynorthwyo gyda gwirio allbynnau cynnar ar gyfer eu hardaloedd daearyddol eu hunain o'r cynulliad data cychwynnol a'r gwaith cyflwyno a wnaed gan Geoplace. Dewiswyd yr Awdurdodau Lleol hyn i roi cynrychiolaeth deg yn ddaearyddol ledled Cymru, ond hefyd i gynrychioli ardaloedd Cyngor math trefol, cymoedd a gwledig:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont Ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen



ATODIAD 2 - Categorïau Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu

Yn gynnar yn y broses, nododd y Tasglu Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu 6 phrif gategori o Ffyrdd Sydd Heb eu Mabwysiadu. Arweiniodd yr ymarfer ymgynghori cynhwysfawr a gynhaliwyd yn Hydref 2018 at gymeradwyo’r categorïau hyn heb unrhyw gategorïau eraill na rhai newydd yn dod ymlaen.

Mae’r categorïau fel a ganlyn:

- datblygiadau o hen gabannau blaenorol heb eu mabwysiadu.




- ffyrdd bach nad ydynt yn gwasanaethu aelwydydd yn benodol



- ffyrdd ystadau tai heb eu mabwysiadu




- lonydd cefn trefol heb eu mabwysiadu



- ffyrdd ystâd a reolir yn breifat sydd heb eu mabwysiadu



- safleoedd diwydiannol / datblygu busnes sydd heb eu mabwysiadu



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLILC • WLGA

# CANLLAW MODEL MABWYSIADU FFYRDD

## AR GYFER AWDURDODAU PRIFFYRDD A DATBLYGWYR TAI

**CAM 'CYN YMGEISIO'**

Ymgeisydd/Awdurdod Cynllunio yn trafod.

Cynnwys yr Awdurdod Priffyrdd - annog mabwysiadu a safonau mabwysiadu

**CAIS CYNLLUNIO**

Gall mewnbwn yr Awdurdod Priffyrdd ddylanwadu ar y penderfyniad.

**CYMERADWYO'R CAIS**

**CAIS RHEOLI ADEILADU**

**A YW'R FFYRDD YN DARPARU MYNEDIAD PREIFAT A RENNIR YN UNIG?**

YDYN → **DIM GWEITHREDU PELLACH GAN YR AWDURDOD PRIFFYRDD**

NAC YDYN → **A OES 5 EIDDO NEU FWY YN MYND I FOD YN DEFNYDDIO'R FFYRDD?**

NAC OES → **DIM GWEITHREDU PELLACH GAN YR AWDURDOD PRIFFYRDD**

OES → **AWDURDOD PRIFFYRDD YN CYFLWYNO HYSBYSIAD COD TALIADAU YMLAEN LLAW (APC) I'R DATBLYGWR O FEWN 6 WYTHNOS O GYMERADWYAETH RHEOLI ADEILADU***

* Os caiff hysbysiad APC ei gyflwyno ni fydd modd dechrau'r gwaith heb gael bond yn ei le (sy'n cyfateb i chyfanswm cost adeiladu'r ffyrdd i safon fabwysiadu fel sy'n ofynnol ganyr Awdurdod Priffyrdd.) Yn ystod y cyfnod hwn gellir trafod Cytundeb Adran 38 (neu, yn ddelfrydol, yn gynt yn y broses)

# CANLLAW MODEL MABWYSIADU FFYRDD

AR GYFER AWDURDODAU PRIFFYRDD A DATBLYGWYR TAI

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CLILC • WLGA

## NODIADAU ESBONIADOL

### Cam Cyn Ymgeisio

Trafodaethau rhwng yr Ymgeisydd a'r Awdurdod Cynllunio cyn cyflwyno Cais Cynllunio.

### Cais Rheoli Adeiladu

Gofynnol fel rhan o 'Reoliadau Adeiladu', a wnaed yn unol â Deddf Adeiladu 1984.

### Mynediad Preifat a Rennir

Darparu mynediad i breswylwyr yn unig i ddatblygiadau megis heolydd pengaead, setiau o fflatiau a reolir gan borthor etc. ac nid yw'n cynnwys unrhyw dramwyfeydd.

### Cod Taliadau Ymlaen Llaw

Y cod statudol a ddarperir gan adrannau 219 i 225 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r cod yn sicrhau y telir am gostau gwaith stryd mewn strydoedd preifat ger adeiladau newydd. Golyga hyn waith ar gyfer adeiladu ffyrdd ystâd mewn cynllun ar gyfer datblygiadau adeiladu megis ystâd dai.

### Cytundeb Adran 38

Cytundeb ar gyfer cynnal gwaith priffyrdd a wneir yn unol ag adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn gysylltiedig fel rheol ag adeiladu neu fabwysiadu ffyrdd ystâd o fewn datblygiadau preswyl.



**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Papur briffio ynghylch deiseb: Gofal plant am ddim

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Hydref 2023
Petitions Committee | 23 October 2023

**Cyfeirnod:** SR237014-1

**Rhif y ddeiseb:**P-06-1362

**Teitl y ddeiseb:** Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024.

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd holl rieni plant dwy oed sy'n gweithio yn gallu cael hyd at 15 awr o ofal plant am ddim o fis Ebrill 2024.
Fodd bynnag, ni fydd y budd hwn yn gymwys i bob teulu sy'n gweithio yng Nghymru, gan na fydd y rhaglen "Dechrau'n Deg" gyfatebol yn ehangu i bob ardal. Mae hyn yn golygu bod teuluoedd Cymru filoedd o bunnoedd yn waeth eu byd na chymheiriaid yn Lloegr, er gwaethaf honiadau gan y Prif Weinidog fod cynnig Cymru yn "well" gan ei fod 48 wythnos yn hytrach na 38 ar gyfer plant 3 a 4 oed.

# 1. Crynodeb

Mae gwahanol gynigion ar gyfer gofal plant am ddim yng Nghymru a Lloegr ar gyfer plant 2 (a 3) oed, a phlant 3 a 4 oed.

Mae gan y ddwy wlad rywfaint o ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o blant sy'n **2 oed**, ond mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig mewn gwahanol ffyrdd.

Er nad yw'r wybodaeth isod wedi'i bwriadu fel canllaw i unrhyw gymhwysedd unigol, yn fras, gellir crynhoi'r sefyllfa bolisi bresennol fel yr isod. (Sylwch ei fod yn faes polisi sy'n newid):

- ***Plant 2 oed*** *(Tabl 1):*
  - **Cymru:** Ar hyn o bryd mae gan rieni pob **plentyn 2 a 3 oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg** hawl i **12.5 awr yr wythnos** am **39 wythnos** bob blwyddyn a chynnig gwyliau ysgol gofynnol. Mae hyn wedi ehangu y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg gyda'r nod o gyflwyno cymhwysedd i bob plentyn dwy oed (gweler isod).
  - **Lloegr:** Gall rhieni cymwys sy'n gweithio â chanddynt **blant 2 oed** hawlio **15 awr yr wythnos** am **38 wythnos** y flwyddyn.
- **Pob plentyn 3 a 4 oed:**
  - **Cymru:** Mae ganddynt hawl i gael o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos, ond mae llawer o awdurdodau yn cynnig mwy.
  - **Lloegr:** Mae ganddynt hawl i tua 15 awr yr wythnos o addysg gynnar.
- ***Plant 3 a 4 oed sydd â rhieni cymwys sy'n gweithio****:*
  - **Cymru:** Mae ganddynt hawl i **30 awr** yr wythnos, **48 wythnos** y flwyddyn. O fis Medi 2022, ehangodd yr hawl hon i gynnwys rhai rhieni mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
  - **Lloegr:** Mae ganddynt hawl i **30 awr** yr wythnos, **38 wythnos** y flwyddyn.

## 1.1. Cynlluniau ehangu

Mae cynlluniau yn y ddwy wlad hefyd i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n ddwy oed, gan gynnwys:

- Yng **Nghymru,** dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn canolbwyntio ar y cam nesaf o ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i gynnwys **pob plentyn dwy oed**, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg (ceir rhagor o wybodaeth yn *Nhabl 1* isod).

- Yn **Lloegr**, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yng Nghyllideb y Gwanwyn ar gyfer 2023 y byddai'n ehangu gofal plant am ddim mewn camau:

**Ebrill 2024**
- Caniatáu i rieni sy'n gweithio sydd â **phlant dwy oed** gael mynediad at **15 awr** o ofal plant am ddim yr wythnos.

**Medi 2024**
- Ymestyn y **15 awr** o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant **rhwng 9 mis oed a dwy oed.**

**Medi 2025**
- Ymestyn yr hawl i **30 awr** mewn camau i rieni sy'n gweithio sydd â **phlant rhwng naw mis a hyd at dair mlwydd oed.**

**Medi 2025**
- Dylai pob rhiant cymwys sy'n gweithio sydd â phlant **rhwng naw mis a thair mlwydd oed** allu cael mynediad at **30 awr** am ddim yr wythnos.

## 2. Ymatebion gweinidogol:

Ymatebodd y **Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** i'r ddeiseb hon:

> *"…rydym **ar hyn o bryd yn darparu cymorth ar gyfer costau gofal plant** o dan y **Cynnig Gofal Plant** a'r **rhaglen Dechrau'n Deg**. Drwy ddatblygu'r ehangiad hwn o dan y rhaglen Dechrau'n Deg, byddwn yn sicrhau bod gan bob rhiant i blant 2 oed fynediad at ofal plant wedi'i ariannu, nid y rhieni hynny sy'n gweithio neu mewn addysg a hyfforddiant yn unig fel sy'n digwydd gyda'r Cynnig Gofal Plant…Yn anffodus, fel y gwyddoch, oherwydd y pwysau ariannol sylweddol rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd, **nid ydym mewn sefyllfa i gadarnhau unrhyw ddatblygiadau ariannol newydd** i helpu gyda chostau gofal plant."*

Dywedodd y **Dirprwy Weinidog** hefyd:


> *"Fe wyddoch am y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford ym mis Awst, a oedd yn trafod y pwysau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Oherwydd hynny, nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i allu cadarnhau unrhyw ddatblygiadau newydd ym maes gofal plant a sut y byddwn yn rhoi cymorth i deuluoedd ymdopi â chostau gofal plant yn y dyfodol."*

# 3. Cymharu cymorth gofal plant yng Nghymru a Lloegr: plant 2 oed

Mae gan Gymru a Lloegr wahanol brosesau o ran darparu gofal plant am ddim, cofrestru ar ei gyfer a chynnal arolygon yn ei gylch. Mae *Tabl 1* yn cymharu'n fras y cymorth gofal plant presennol a gynigir i rieni plant yng **Nghymru** (**plant 2 a 3 oed cymwys**) ac yn **Lloegr** (**plant 2 oed cymwys**).

*Tabl 1: Rhieni cymwys plant 2 (a 3) oed.*

| | Cymru | Lloegr |
|---|---|---|
| Cyhoeddwyd gan: | Dechrau'n Deg: rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar sydd wedi bod ar waith ers 2007 ac a ddarperir gan awdurdodau lleol. | Llywodraeth y DU. |
| Poblogaeth darged: | **Pob plentyn 2 a 3 oed** sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg. | Plant 2 oed i rieni cymwys ar incwm isel. |
| Cymorth a gynigir: | Hawl i ofal plant am ddim am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos (**12.5 awr yr wythnos**) am **39** wythnos y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth gofal plant ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.<br><br>Gall plant hefyd dderbyn gwasanaethau gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol gwahanol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd; gweithwyr iechyd proffesiynol ehangach fel dietegwyr, bydwragedd a gweithwyr cymdeithasol; a staff eraill fel cynorthwywyr i staff iechyd cymwys llawn. | Hawl i **15 awr** yr wythnos, **38 wythnos** y flwyddyn. |
| Meini prawf cymhwysedd: | Mae Dechrau'n Deg yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi targedu ardaloedd yn ôl mesurau anfantais gymharol, gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, prydau ysgol am ddim a chyfran y plant o dan 4 oed mewn cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm. | - Os yw rhieni'n derbyn budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm.<br>- Mae plant 2 oed hefyd yn gymwys am resymau nad ydynt yn rhai economaidd, gan gynnwys os oes ganddynt gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHC), yn derbyn lwfans byw i'r anabl, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu wedi gadael gofal o dan orchymyn mabwysiadu, gwarcheidiaeth |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>arbennig, neu orchymyn trefniadau plant.</td></tr>
<tr><td>Gwerthusiad:</td><td>Dywed Llywodraeth Cymru fod dros 3,100 o blant ychwanegol wedi elwa o gam cyntaf y broses ehangu ym mis Medi 2022.<br><br>Fodd bynnag, o 2015-16 i 2021-22, mae nifer y plant sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg yn parhau heb newid. Yn 2021-22, derbyniodd ychydig dros 34,000 o blant wasanaethau Dechrau'n Deg, gan gynnwys cyswllt ag ymwelydd iechyd. Roedd hyn 6 y cant yn is na'r nifer disgwyliedig, ond yn gynnydd o 7 y cant ers 2020-21.<br><br>Ffigur 1: Nifer y plant a oedd yn derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg, 2012-13 i 2021-22<br><br>Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Data Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru<br><br>Serch hynny, gan fod y cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau Dechrau'n Deg yn seiliedig ar ardal, mae cyfanswm y plant sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cael ei effeithio gan nifer y plant o dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg bob blwyddyn. Mae hyn yn ei dro yn cael ei effeithio gan newidiadau i ddemograffeg poblogaeth. Mae nifer y plant 0 i 4 oed yng Nghymru wedi gostwng rhwng 1.2 y cant a 2.5 y cant bob blwyddyn ers 2016. Wrth i blant symud i mewn neu allan o ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystod y flwyddyn, efallai na fydd cyfanswm y plant sy'n cael eu cyfrif fel rhai sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg, mewn gwirionedd yn derbyn gwasanaethau am gyfnod o flwyddyn gyfan.</td><td></td></tr>
<tr><td>Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:</td><td>Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn canolbwyntio ar y cam nesaf o ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i</td><td>O fis Ebrill 2024, y nod yw ymestyn hyn i holl rieni plant 2 oed yn Lloegr.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | gynnwys **pob plentyn dwy oed**, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ym mis **Mawrth 2022,** amlygodd Llywodraeth Cymru y byddai'n anelu i'r rhaglen Dechrau'n Deg "***ehangu i gynnwys hyd at 2,500 mwy o blant o adeg geni hyd at bedair oed*** *drwy estyn ardaloedd targed y rhaglen ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru."* Hefyd, *"Ar ôl i'r cynllun Dechrau'n Deg gael ei roi ar waith yn llawn,* ***bydd pob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng dwy a thair oed yn gymwys i gael 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir am 39 wythnos y flwyddyn."***<br><br>At hynny, ym mis **Mawrth 2022**, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd yn *"canolbwyntio ar fuddsoddi £26m i ddarparu elfen gofal plant safonol Dechrau'n Deg i fwy byth o blant dwy oed yn ystod 2023-24 a 2024-25."*<br><br>Ar ben hynny, o fis **Medi 2023**, **dyrannwyd £20 miliwn o gyllid ychwanegol dros y tair blynedd nesaf** i gefnogi'r broses ehangu. Y nod yw cefnogi dros 9,500 yn fwy o blant dwy oed i gael gofal plant Dechrau'n Deg o safon.<br><br>At hynny, bydd cynlluniau ar gyfer ehangu mwy o ofal plant drwy Dechrau'n Deg yn cael eu **cyhoeddi yn yr hydref**. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, bydd darparwyr presennol gofal plant Dechrau'n Deg yn cael eu cefnogi i ehangu eu cyrhaeddiad, gyda gwaith yn mynd rhagddo i annog darparwyr newydd, gan gynnwys y rhai sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gynnig y rhaglen. | |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

- Papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
- Help gyda chostau gofal plant yn Lloegr: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1362
Ein cyf/Our ref MA/JMSS/00591/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Medi 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 11 Medi, ynghylch deiseb Madeline Hallam yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth sy'n cyfateb i'r Cynnig Gofal Plant newydd yn Lloegr o 15 awr i blant 2 oed o fis Ebrill 2024.

Rydym yn cydnabod y pwysau mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd gyda chostau cynyddol gofal plant, yn enwedig yn yr argyfwng costau byw presennol. Fel y byddwch yn gwybod o'm hymateb i'ch gohebiaeth flaenorol ynglŷn â'r ddeiseb debyg iawn gan Jade Richards (P-06-1359), rydym ar hyn o bryd yn darparu cymorth ar gyfer costau gofal plant o dan y Cynnig Gofal Plant a'r rhaglen Dechrau'n Deg. Drwy ddatblygu'r ehangiad hwn o dan y rhaglen Dechrau'n Deg, byddwn yn sicrhau bod gan bob rhiant i blant 2 oed fynediad at ofal plant wedi'i ariannu, nid y rhieni hynny sy'n gweithio neu mewn addysg a hyfforddiant yn unig fel sy'n digwydd gyda'r Cynnig Gofal Plant.

Mae Cam 1 y rhaglen Dechrau'n Deg eisoes wedi helpu tua 2,500 o blant ychwanegol (0-4 oed) â gofal plant rhan-amser, o ansawdd da ac sydd wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 oed; cefnogaeth i rieni; gwell cymorth gan ymwelwyr iechyd; a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae eisoes wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Bydd Cam 2 o'r rhaglen ehangu yn parhau i sicrhau cynnydd mewn perthynas â'n hymrwymiad i "fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg", fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Rydym yn buddsoddi £46 miliwn yng Ngham 2 o'r gwaith i ehangu Dechrau'n Deg yn 2023-24 a 2024-25. Bydd hyn yn cefnogi dros 9,500 yn rhagor o blant dwy flwydd oed i gael gofal plant o safon drwy Dechrau'n Deg yn ystod Cam 2. Dechreuodd y gwaith o gyflwyno Cam 2 ym mis Ebrill 2023, ond mae'n cymryd amser i gynyddu'r capasiti o fewn y sector.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.




Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod wedi ehangu'r Cynnig Gofal Plant ym mis Medi 2022 i gefnogi rhieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant ac rydym yn parhau i adolygu'r Cynnig i sicrhau ei fod yn deg ac yn gyfartal i gynifer o deuluoedd â phosibl ledled Cymru.

Yn anffodus, fel y gwyddoch, oherwydd y pwysau ariannol sylweddol rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i gadarnhau unrhyw ddatblygiadau ariannol newydd i helpu gyda chostau gofal plant.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Dear Senedd Committee,

We are writing to you in reference to the Petition to 'Offer Welsh working parents the same financial support for childcare as England'.

We find the petition problematic in its wording in that it refers to commitments made to provide an extension to the current childcare offer in England which are yet to become reality, and the majority of which will likely be the responsibility of a newly formed government following the upcoming (as yet to be scheduled) general election.

The petition highlights the complexity of the Welsh Government's childcare offer, comprising a range of services including the 30 hours childcare offer for 3–4-year-olds and the Flying Start offer for 2-year-olds.

Parents are under extreme pressure, and the UK has one of the most expensive childcare systems in the world. According to 2022 OECD figures, the UK has the third most expensive childcare, with only the Czech Republic and New Zealand more expensive in net childcare costs.[i]

Figures show that one in three young mums were forced to leave a job because they could not afford childcare.[ii]

Oxfam Cymru research, to be released in coming weeks, shows families are struggling with the cost of childcare:

- A staggering 91.7% (306/334) of parents either agree or strongly agree that childcare costs are too high compared to their income.
- 53% (178/334) of parents said that it doesn't make financial sense for them to go to work after paying for childcare.
- 39% (130/333) of the participants agree or strongly agree that they haven't been able to pay other essential costs after paying for childcare.

Childcare is a critical social infrastructure for our society and economy, impacting multiple dimensions. Beyond its role in shaping the future generation, childcare also plays a pivotal role in workforce participation, enabling parents, especially mothers, to maintain or re-enter the workforce, contributing significantly to economic productivity and financial independence.

Moreover, childcare fosters social inclusion by offering support to families of diverse backgrounds and income levels, helping to bridge socio-economic gaps. Recognizing childcare's multifaceted importance is crucial as it not only empowers children but also empowers communities and economies, ultimately shaping the trajectory of our society for generations to come.

Childcare remains one of the main reasons for women to be economically inactive. More women are economically inactive in Wales, 25.5% of economically inactive women are out of work due to "looking after family/home", compared to only 6.8% of men.

Yet, childcare support and offers remain insufficient to overcome this inequality.

Our upcoming research presents some staggering figures in relation to childcare and parent's employment:

- 53.3% (178/334) of parents said that after paying for childcare, it doesn't make financial sense for them to go to work.
- 66% (221/334) of the parents said due to childcare costs, they did not have any disposal income/savings.
- 67% (106/158) of the parents/carers said that they would have returned to work or increased working hours quicker if more funded childcare had been available.
- 74% (247/334) of the parents agreed that lack of funded childcare has had a negative impact on their work or career.

This petition has shone a light on the need for the Welsh Government to provide clear and detailed plans on how they will support families struggling to survive with the insurmountable cost of childcare. The interest in this petition, at a time when families were juggling a busy summer holiday period, shows the strength of public interest in this matter, and how they are looking for a solution that helps all families as soon as is practicable.

Kind regards

Sarah Rees
Head of Oxfam Cymru

[i] OECD (2022), Net Childcare Costs
[ii] https://www.youngwomenstrust.org/our-research/childcare-what-young-women-want/

**P-06-1362 Match the new childcare offer in England of 15 hours for 2 year old's from April 2024 – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 11 October 2023**

Eich cyf/Your ref P-06-1362 Ein cyf/Our ref JMSS/00591/23

Views in light of the document for the Committee to consider 11th October 2023

I do not feel that the letter I received from the Deputy Minister for Social services on the 9th October 2023 adequately address the issues raised. Firstly, I would ask that in future the Deputy Minister for SS avoids comparing the Flying Start program (supporting deprived areas) to universal government funded help for **working parents.** It is not relevant in response to the petition that I started for the following reasons laid out in this letter.

Key Points for consideration

Why Flying Start is not comparable to working parents childcare offer;

- It is a postcode lottery and therefore not universal (unlike the English offer)
- The majority of parents who qualify for flying start **do not work.**
- Flying start hours are specified as 2 hours per day which **does not support parents who work** traditional hours 9-5 as they need a provider to pick up/drop off.
- The ability to use flying start if you are a **working parent** is therefore depending on the availability of wrap around childcare.
- In my area in particular (as I'm sure many others) the only local provision that provided wrap around childcare to local schools in Llangollen closed in August 2024 so even if flying start became available in our area **working parents** would not able to use it.
- Qualified providers have to be registered as a Flying start setting so parents cannot use the hours where ever they wish (unlike the English offer)

Other comments on the letter

The expansion of the Welsh childcare offer to support parents in education and training that you mentioned again **does not help working parents.** To hide behind financial pressures is not acceptable when the UK government has provided the funding but it is being spent otherwise.

Further questions

You mention *building capacity in the sector*. By this I assume you mean number of childcare places suitable for flying start. The Welsh childcare system is crumbling, 300,000 less places than this time 12 months ago and counting. How are the government looking to support the building of capacity?

Final question - can **working parents** who have to send their child to nursery in England due to lack of provision in Wales claim the 15 hours in April 2024 in line with the other parents sending their children to the nursery, otherwise is this not border county discrimination based on regional postcode.

Similar Petition

I am aware of a comparable petition started a few days after mine by Jade Richards (didn't think this was possible) which received an astonishing 10,000+ signatures. I hope the Welsh government realise how many **working parents** and childcare providers feel let down.

Thank you very much for your time.

**P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Seren Cole, ar ôl casglu cyfanswm o 258 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae'r ddeiseb hon yn galw ar Senedd Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Cwotâu ar sail Rhyw ac Ethnigrwydd yn ei systemau etholiadol ac mae'n galw am fwy o gynrychiolaeth i bobl o gefndir anabledd. At hynny, mae'n gofyn pa gamau y mae'r Senedd hon a'i phum rhagflaenydd wedi'u cymryd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu Cymru gyfan yn well.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, mae 5.2 y cant o bobl Cymru o gefndir ethnig lleiafrifol, ond nid yw'r ffigur hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad presennol y Senedd. At hynny, mae 48.9 y cant yn fenywod yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gyda dros un o bob pump o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn anabl.
Fodd bynnag, nid yw Senedd Cymru'n adlewyrchu'r amrywiaeth hon.
Dim ond 43 y cant o'r Aelodau a etholwyd i'r Senedd sy'n fenywod, a thri Aelod yn unig sydd o gefndir ethnig lleiafrifol, gyda phobl anabl yn gweld ond ychydig gynrychiolaeth, os o gwbl. Bu gwelliannau yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r niferoedd hyn yn dal i fod yn syfrdanol o isel ac, o'r herwydd, mae lleisiau mewn rhannau helaeth o boblogaeth Cymru heb gael eu clywed.
Mae angen cynrychiolaeth yn y Senedd, fel bod anghenion pawb yn cael eu diwallu a'u deall gan eu llywodraeth.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

3 Hydref 2023

Annwyl Jack

Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn fwy cynrychiadol o boblogaeth Cymru

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 2 Hydref 2023, ac am dynnu sylw'r Pwyllgor Biliau Diwygio at y ddeiseb uchod.

Fel y gwyddoch, ein rôl yw craffu ar Filiau y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio atom. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) , ac rydym yn rhagweld y bydd deddfwriaeth ychwanegol i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ac i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth amrywiaeth am ymgeiswyr, yn cael ei chyfeirio atom maes o law.

Byddaf yn sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Biliau Diwygio yn cael gwybod am y ddeiseb, a'r ohebiaeth gysylltiedig, wrth i ni ymgymryd â'n gwaith.

Efallai yr hoffech ystyried tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y ddeiseb. Y mae wrthi'n craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar hyn o bryd. Nodaf fod y Bil hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol, ac i gynlluniau unigol gael eu creu a'u teilwra i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**P-06-1334 Make the Senedd More Representative of the Welsh Population, Correspondence – Petitioner to Committee, 17.10.23**

I agree with the statement in the email and don't have much else to add except I want to stress the importance of where diverse attributes overlap, for example, black women having little to no representation compared to black men or white women. Other than making quotas, the Senedd must be more aware of bias when selecting members when they are a part of more than one minority group.

Regards,
Seren Cole

# Eitem 4.2

**P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Craig Shuttleworth, ar ôl casglu 11,306 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae feirws brech y gwiwerod yn cael ei gario a'i ledaenu gan wiwerod llwyd. Nid yw'r feirws yn eu niweidio nhw. O gael eu heintio, mae gwiwerod coch yn datblygu briwiau agored dros eu croen ac yn dioddef marwolaeth boenus o fewn pythefnos
Yng ngogledd Cymru, collwyd rhwng 70 a 80 y cant o wiwerod coch Gwynedd mewn brigiad o achosion yn 2020/21:
https://theconversation.com/squirrelpox-outbreak-detected-in-north-wales-without-a-vaccine-the-disease-will-keep-decimating-red-squirrels-196811
Daeth cyllid Sefydliad Moredun ar gyfer ymchwil addawol i frechlyn i ben.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Mae Cynllun Diogelu'r Gwiwerod Coch yng Nghymru (tudalen 9) yn dangos bod y rhan fwyaf o wiwerod coch Cymru mewn coedwigoedd lle mae gwiwerod llwyd hefyd yn byw. Golyga hyn fod feirws y frech yn fygythiad mawr yng Nghymru.
https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/691093/cym-cynllun-diogelu-r-wiwer-goch-yng-nghymru.pdf?mode=pad&rnd=132272074460000000
Ym Mangor, cafwyd nifer o achosion o feirws brech y gwiwerod yn y cyfnod 2017-2022. Daethpwyd ar draws cyrff gwiwerod coch mewn coetir ger Pont Britannia a Phont Grog Telford. Yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yr haint yn croesi'r Fenai a lledaenu i Ynys Môn. Mae'r ynys yn gartref i boblogaeth fwyaf Cymru o wiwerod coch.
Mae'r haint yn achosi symptomau erchyll:
http://www.britishredsquirrel.org/red-squirrels/disease/
Mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu ymchwil, megis yr ymchwil ohiriedig i frechlyn gan Moredun/Wildlife Ark Trust:

https://www.dailyrecord.co.uk/news/local-news/red-squirrel-vaccine-under-threat-2540293.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Arfon
- Gogledd Cymru

**P-06-1332 Fund vaccine research to protect red squirrels from deadly Squirrelpox virus, Correspondence – Petitioner to Committee, 10.10.23**

Dear Mr Sargeant

Squirrelpox has, and will continue, to devastate red squirrel populations in Wales unless we have a vaccine. The urgency of the matter was clear in the Senedd debate with strong cross-party support for red squirrel conservation. I would like to thank you and your colleagues for taking this forward.

I have made a few brief points below which I hope will assist your committee in its considerations.

**Vaccine feasibility study**

There are a large numbers of questions about vaccine which we need answered. The Minister sensibly mentioned many of these: cost, timetable, utility, method of delivery, attenuation or other research steps. My petition was of course not wedded to Wildlife Ark Trust (WAT) attenuated approach mentioned, as I was careful to leave the door open to alternative routes e.g. Pirbright Institute.

I would therefore ask that the Petitions Committee consider getting in touch with WAT and Pirbright Labs respectively about current or potential research proposals.

**Red squirrels and pox in Mid Wales**

The Minister mentioned that in Mid Wales, the Wildlife Trusts (Wales) had never recorded a case of squirrelpox. However, only a small proportion of infected animals are recorded, even in major disease outbreaks in habitats where finding bodies is relatively easy e.g. Formby (Lancs) & Bangor (Gwynedd). In the upland spruce forest of Mid Wales my understanding is that only a handful of dead reds have been found in 20 years: one brought in dead by a cat and one a road casualty. Thus it is quite baffling that anyone can claim with confidence the relative importance of any cause of regional mortality, let alone that viral disease outbreaks have not occurred in the forests.

Importantly, some dead red squirrels only show minor localised lesions, and in these cases infection could very easily overlooked where (as in mid Wales) animals are monitored at a distance using automatic cameras. Finally, I was contacted by the Mid Wales project in 2022 lamenting the lack of red squirrel sightings and apparent inexplicable declines in numbers to a point where serious consideration was being given to releasing animals to boost numbers.

The Wildlife Trusts (Wales) are of course entitled to provide their position regarding Squirrelpox. However, I would ask the petitions committee to consider the peer reviewed scientific publications that paint a very different and grave picture of the viral threat posed by grey to red squirrels in Wales.

Kind regards

Dr Craig Shuttleworth

# Eitem 4.3

**P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Susan Blaney, ar ôl casglu cyfanswm o XXX lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Profodd tân diweddar yng Nghlwb y Gweithwyr Tylorstown fod angen diweddaru'r seilwaith yn y Rhondda Fach ar frys. Roedd y brif ffordd wedi'i rhwystro am sawl diwrnod, dargyfeiriwyd yr holl draffig drwy strydoedd ymyl gan achosi rhwystrau a thagfeydd. Bu'n rhaid cau ysgolion, atal trafnidiaeth gyhoeddus, a chanslo cludiant i'r ysgol. Nid oedd pobl yn gallu cyrraedd y gwaith ac nid oedd llwybr hygyrch ar gyfer cerbydau brys.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae'r ffordd liniaru o Tylorstown i Maerdy wedi bod yng nghynllun datblygu lleol yr Awdurdod Lleol ers blynyddoedd, ac mae'n bryd i bobl y Fach weld rhywfaint o weithredu cyflym. Ni all hyn ddigwydd gyda "rhewi" Llywodraeth Cymru ar ffyrdd newydd fel y mae.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Rhondda
- Canol De Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 5

# P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Y Pwyllgor Deisebau | 5 Mehefin 2023
Petitions Committee | 5 June 2023

SR235996-3

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1335

**Teitl y ddeiseb:** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae Mencap Cymru yn pryderu y gall y newid tuag at gymdeithas heb arian parod wneud cam â phobl anabl na allant gael mynediad at ddulliau electronig ar gyfer talu.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae pobl ag anableddau dysgu wedi methu talu am nwyddau a gwasanaethau ac wedi gorfod gadael busnesau'n waglaw. Ni chaniateir i weithwyr cymorth ddefnyddio'u cardiau eu hunain, ac ni ddylid disgwyl iddynt wneud hynny.

Mae'n mynd yn anoddach iddynt brynu nwyddau a gwasanaethau wrth i nifer o fusnesau a sefydliadau droi at systemau electronig o dalu.

# 1. Cefndir

Canfu adroddiad diweddar gan UK Finance, cymdeithas fasnach y diwydiant bancio a chyllid, fod bron 40 y cant o bobl yn defnyddio arian parod i dalu am rywbeth o leiaf unwaith yr wythnos, gyda 11 y cant yn dweud bod yn well ganddynt ddefnyddio arian parod a dim ond tri y cant yn dweud nad oeddent erioed wedi defnyddio arian parod o gwbl. Canfu'r adroddiad hefyd fod traean o'r bobl oedd wedi defnyddio arian parod yn y flwyddyn ddiwethaf yn dweud eu bod wedi cael profiad o daliad arian parod yn cael ei wrthod.

# 2. Senedd y DU

Ar 20 Mawrth cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ddadl ar deiseb sy'n galw ar Lywodraeth y DU i'w gwneud yn ofynnol i bob busnes a gwasanaeth cyhoeddus dderbyn taliadau arian parod.

Mae ymateb Llywodraeth y DU i'r ddeiseb yn nodi:

> "The Government does not intend to mandate cash acceptance. The Government's view is that as technology and consumer behaviour changes, it should remain the choice of individual organisations as to whether to accept or decline any form of payment, including cash or card based on their consideration of factors such as customer preference and cost.
>
> However, the Government recognises that millions of people continue to transact in cash across the UK, particularly those in vulnerable groups, and engages closely with financial regulators to monitor and assess trends relating to cash. Research undertaken by the Financial Conduct Authority found that 98% of small businesses would never turn away a customer if they needed to pay by cash."

Mae'r ymateb hefyd yn nodi y cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth yn ddiweddar i ddiogelu mynediad at arian parod fel rhan o'r Bil Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cefnogi sefydliadau, gan gynnwys busnesau lleol, i barhau i dderbyn arian drwy sicrhau bod ganddynt fynediad rhesymol at gyfleusterau adneuo.

## 3. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r ymateb i'r ddeiseb gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip (y Gweinidog) yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi, lle bynnag y bo'n bosibl, yr angen i fusnesau dderbyn arian parod. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn nodi "nid oes gennym lawer o bwerau yn y maes hwn, a mater i'r busnesau yn llwyr yw penderfynu p'un a ydynt am wneud ar sail ystyriaethau masnachol". Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi y gallai fod angen ystyried agweddau yn ymwneud â chydraddoldeb:

> "Mae taliadau digidol yn unig, heb opsiwn i dalu ag arian parod yn codi cwestiynau o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn effeithio ar unigolion sy'n derbyn ac yn darparu gwasanaethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gallai mynnu taliadau digidol wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae swyddogion yn bwriadu ymchwilio'n fanylach i hyn."

Mae ymateb y Gweinidog hefyd yn tynnu sylw at waith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a sefydlodd er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl newydd:

> "Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi holl bobl anabl Cymru, ac wedi sefydlu Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a fydd yn weithredol tan 2024. Mae'n dwyn ynghyd bobl â phrofiad bywyd, arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol er mwyn nodi'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl. Mae'r Tasglu yn gweithio o fewn cwmpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru, ac nid mewn meysydd sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn benodol."

Mae disgwyl i Gynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl newydd Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.

## 4. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd ei adroddiad "Mynediad at Fancio".

Canfu'r Pwyllgor dystiolaeth ysgubol o effaith negyddol cau banciau a gostyngiad mewn peiriannau ATM am ddim yng Nghymru, a lleisiodd bryder "yn sicr nid yw Cymru yn barod i roi’r gorau i ddefnyddio arian".

Mewn perthynas â mynediad at arian parod, dywedodd LINK, y sefydliad dielw sy'n rheoli’r rhwydwaith LINK ATM, wrth y Pwyllgor, er bod defnydd arian parod wedi gostwng yn gyflym yn ystod y degawd diwethaf a bod disgwyl i hyn barhau, fod mynediad am ddim i arian parod i ddefnyddwyr yn wasanaeth cenedlaethol hanfodol. Dywedodd LINK fod dros 47 y cant o ddefnyddwyr yn dal i ddibynnu ar arian parod ac y byddai cymdeithas heb arian parod yn cyflwyno heriau gwirioneddol i 17 y cant o ddefnyddwyr. Dywedodd y sefydliad defnyddwyr Which? wrth y Pwyllgor ei fod yn pryderu bod y gyfradd y mae mynediad at arian parod yn gostwng yn mynd yn groes i agweddau defnyddwyr a’r galw ganddynt, a'i fod yn cael ei yrru gan ddiwydiant. Rhybuddiodd y gallai cymunedau Cymru golli’r dewis i ddefnyddio arian parod cyn iddynt fod yn barod, ac y gall fod yn gymhleth ailgyflwyno arian os bydd yn diflannu.

Mae'r gostyngiad yn y defnydd o arian parod hefyd yn effeithio ar sut mae busnesau'n dewis derbyn taliadau, gan fod costau ymdrin ag arian parod a derbyn taliadau electronig yn newid dros amser. Nododd y Pwyllgor mai "mater penodol yma yw’r gallu i fusnesau adneuo derbyniadau arian parod, a chost gysylltiedig hynny".

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion, gan gynnwys:

> “Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hybiau rhanbarthol, a chydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau wella’r mynediad at arian parod yng nghymunedau Cymru (gan gydnabod bod trin arian parod yn fusnes drud)."

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad mewn egwyddor.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref am effaith cau canghennau ar bobl hŷn a phobl anabl yn benodol, a phroblemau allgáu digidol i'r rhai sydd eisoes dan anfantais. Yn hynny o beth, argymhellodd y Pwyllgor hefyd:

> “Argymhelliad 10. Dylai cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol flaenoriaethu a) cynnal cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau digidol sy’n bodoli eisoes, b) ymgynghori â rhanddeiliaid ar sut i fynd i’r afael ymhellach â’r rhwystrau i bobl hŷn a phobl sy’n agored i niwed gael mynediad diogel at

fancio ar-lein, ac c) darparu cymorth ychwanegol i athrawon ddarparu addysg ariannol o fewn y cwricwlwm ysgolion."

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.